Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## YMDRIN AG ADDYSGU UNED 1

» Mae gan Uned 1 nifer o nodweddion pwysig iawn:

- mae'n ymdrin â chyfnod hir o Hanes gan ei bod yn cyflawni'r meini prawf cenedlaethol bod rhaid astudio Hanes yn eang ar safon UG ac Uwch
- mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r ddealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol allweddol fel maent yn cael eu pennu yn Amcan Asesu 1
- mae ei ffocws ar sgiliau yn hytrach nag ar gynnwys a ffeithiau

» Pwysleisir bod rhaid addysgu'r holl gynnwys ym mhob opsiwn, er y pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r cynnwys gael ei addysgu'n drylwyr.

## CYNGOR YNGHYLCH SUT I DRIN CYNNWYS ASTUDIAETH O GYFNOD 3 UNED 1

**Er mwyn rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 3,** argymhellir bod yr athrawon yn anelu at ddefnyddio trosolwg cyffredinol o unigolion, digwyddiadau, termau a dyddiadau pwysig sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o bob topig neu fater. Mae'n hanfodol pwysleisio y dylid ystyried yr Astudiaeth o Gyfnod fel cyfanwaith a ble bo'n briodol, dylid gwneud cysylltau a chysylltiadau rhwng ac ar draws nodweddion a phriodweddau.

Un ffordd bosibl o reoli cynnwys yr opsiwn hwn yw dechrau pob prif dopig gyda thrafodaeth. Mae dechrau a diweddu'r astudiaeth o bob topig neu fater gyda thrafodaethau neu ddadleuon yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar nodweddion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r topig neu'r mater. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio'u sylw ar beth sydd bwysicaf yn y cyfnod a astudir.

Dylai'r athrawon wneud defnydd o'r amrywiaeth o drafodaethau awgrymedig fel dull o drefnu eu hymagwedd at gynnwys y fanyleb, ond ni ddylent gymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd cwestiynau arholiad yn cael eu gosod yn uniongyrchol neu eu seilio'n gyfan gwbl ar unrhyw rai o'r trafodaethau a awgrymir isod.

© Hawlfraint y Goron 2018 

**Gellir rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 3 drwy gynnal cyfres o drafodaethau neu ddadleuon.** Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Amlinellwch strwythur gwleidyddol Prydain yn 1780.
- Nodwch y prif broblemau oedd yn wynebu cymdeithas ym Mhrydain yn 1780
- Esboniwch pam roedd yna bwysau dros ddiwygio Seneddol yn y cyfnod 1780-1832
- Cymharwch ymatebion amrywiol y llywodraethau i bwysau gwleidyddol a chymdeithasol, 1780-1823
- Archwiliwch y prif ddatblygiadau mewn protestio gwledig a threfol rhwng 1780 ac 1848
- Gwerthuswch faint y diwygio gwleidyddol a chymdeithasol yn y cyfnod 1815-1880
- Dadansoddwch i ba raddau y newidiodd y pleidiau gwleidyddol a'u polisïau ar ôl 1832
- Dadleuwch arwyddocâd y prif arweinwyr gwleidyddol rhwng 1815 ac 1880
- Trafodwch p'un a fyddai bywyd y person cyffredin wedi newid er gwell yn y cyfnod hwn

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 1: DEFNYDDIO DARLUNIAU I DRAFOD CYSYNIADAU

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn cyflwyno a dadlau rhai o'r trafodaethau awgrymedig yn yr opsiwn hwn mae'n bosibl defnyddio darluniau i gyflwyno neu ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r materion. Gellir cyflwyno, datblygu, dadlau neu adolygu'r rhan fwyaf o'r cynnwys penodedig sy'n cael ei drafod yn yr opsiwn hwn gan ddefnyddio darluniau. Gall y rhain fod yn gartwnau, paentiadau, printiau neu fapiau. Islaw rhoddir enghraifft sy'n canolbwyntio ar drafod y cysyniad o **ganlyniad.**

Mae'r cartŵn isod yn ddarlun cyfoes o Derfysgoedd Rebeca. Defnyddiwch y cartŵn i ddechrau trafodaeth ar pam ddechreuodd Terfysgoedd Rebeca yng Nghymru wledig yn yr 1840au.




Terfysgoedd Rebeca
Delwedd Wikimedia Creative Commons image

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 2: Rhowch radd Coch/Melyn/Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau allweddol

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ar gyfer pob un o'r trafodaethau awgrymedig a roddir uchod, dylai'r dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â phob un. Er enghraifft, gellir ystyried y rhain am eu pwysigrwydd neu arwyddocâd ym mhob mater. I ddechrau'r broses hon, gallai'r dysgwyr ddefnyddio tri amlygwr lliw i roi seren Goch, Felen neu Werdd wrth ochr pob nodwedd.

Coch: Nodweddion sydd ag ond ychydig berthnasedd i'r ymholiad
Melyn: Nodweddion sydd â rhywfaint o berthnasedd i'r ymholiad
Gwyrdd: Nodweddion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymholiad.

Byddai **gweithgareddau cysylltiedig** yn cynnwys defnyddio amlygwyr lliw i amlygu'r nodweddion a'r priodweddau hyn mewn perthynas ag:

**Amser** – ydyn nhw'n ffactorau tymor hir neu dymor byr?

**Persbectif** – ydyn nhw'n ffactorau unigol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, neu'n gyfuniad o'r rhain?

Dyma enghraifft o drafodaeth awgrymedig:

**Esboniwch pam roedd pwysau dros ddiwygio Seneddol yn y cyfnod 1780-1832**

Rhowch radd Coch / Melyn Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau canlynol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth hon:

- Annhegwch y system etholiadol
- System bleidleisio lwgr
- Cynrychiolaeth anghyfartal
- Dylanwad y Chwyldro Ffrengig
- Dylanwad y mudiad radicalaidd
- Y newid yn agweddau'r pleidiau gwleidyddol

© Hawlfraint y Goron 2018

- Ofn chwyldro
- Anhrefn a phrotest
- Twf y dosbarthiadau canol
- Twf trefi a dinasoedd.

Nawr gwnewch y gweithgaredd eto ar gyfer unrhyw dri o'r trafodaethau awgrymedig eraill ar dudalen 2.

## GWEITHGAREDD 3: SYMUD O HONIAD I DDADL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

**Gellir dilyn Gweithgaredd 2 gan un sy'n gofyn i'r dysgwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau graddio Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG). Bydd hyn yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng honiad a dadl.**

**Honiad:** gosodiad neu farn nad ydyw'n cael ei hategu gan reswm neu fanylion ychwanegol.

**Dadl:** honiad a gyfiawnheir gan reswm neu fwy o fanylion ac sy'n egluro neu'n cyfiawnhau rhywbeth ac yn gwrthddweud dadleuon eraill.

**Er mwyn helpu i symud o honiad i ddadl,** darllenwch y cwestiwn enghreifftiol isod ac yna ategwch bob un o'r honiadau er mwyn ei droi'n ddadl.

**Ai amodau economaidd oedd yn bennaf gyfrifol am yr anniddigrwydd a'r protestio radical yn y cyfnod 1812-1848?**

H1: Chwaraeodd y cyflwr economaidd ran hanfodol wrth achosi protest a gwrthryfel yn y cyfnod hwn.

**Ategwch yr honiad hwn**

H2: Mater arall i'w ystyried yw'r pwysau gwleidyddol a achoswyd gan ddifrifoldeb cynyddol y Chwyldro Ffrengig yn yr 1790au.

**Ategwch yr honiad hwn**

H3: Gellir dadlau bod y gwir gyfrifoldeb am yr anniddigrwydd a'r protestio radical yn ymwneud ag effaith trefoli.

**Ategwch yr honiad hwn**

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU DADL RESYMEGOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Wrth ystyried y cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu'r opsiwn hwn, disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion, gwerthuso'u pwysigrwydd ac yn gallu rhoi barn wedi'i chyfiawnhau sy'n cael ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd. Yn aml, gellir gwneud hyn ar y cyd â'r ymagwedd trafodaethau awgrymedig a welir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gellir defnyddio pob enghraifft o'r trafodaethau awgrymedig a nodir i fynd i'r afael â chysyniadau hanesyddol penodol a hefyd i helpu dysgwyr i ddatblygu dadl resymegol.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall athrawon a dysgwyr fynd ati i ddatblygu dadl resymegol wrth ateb cwestiwn gosod:

**'Y diwygio cymdeithasol mwyaf arwyddocaol yn y cyfnod 1815-1848 oedd diwygio Cyfraith y Tlodion.' Trafodwch.**

**Nodweddion allweddol:**

- Y pwysau dros ddiwygio cymdeithasol
- Diwygiadau yn yr 1820au
- Diwygio ffatrïoedd a mwyngloddiau
- Diwygio iechyd y cyhoedd
- Cyfraith y Tlodion

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

- Maint y newidiadau yng Nghyfraith y Tlodion
- Y cysyniad o dloty
- Arwyddocâd economaidd diwygio Cyfraith y Tlodion
- Ymagwedd Edwin Chadwick

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

- Diwygiadau'r llywodraethau Ceidwadol, 1815-1830
- Diwygiadau'r Chwigiaid, 1833-1841
- Diwygiadau Peel, 1841-1846
- Diwygiadau i iechyd y cyhoedd tua diwedd yr 1840au

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad yn cynnwys gwerthuso arwyddocâd:**

- Diwygiadau cysylltiedig ag amodau gwaith
- Diwygiadau cysylltiedig ag iechyd y cyhoedd
- Diwygiadau cysylltiedig ag addysg

© Hawlfraint y Goron 2018

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, **llenwch y diagram sy'n dilyn** ar gyfer dau gwestiwn arall sydd wedi ymddangos ar gyn-bapurau arholiad ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Nodweddion allweddol:**

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

**Cwestiwn**

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad:**

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 5: CYSYLLTU CYNNWYS Â CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r astudiaeth o Hanes UG a Safon Uwch. Wrth ymateb i'w haseiniadau, mae dysgwyr yn aml yn methu â chanolbwyntio ar y cysyniadau allweddol yn eu hymatebion. Yn lle hynny maent yn rhoi gwybodaeth yn null naratif neu restr.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn deall bod cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 3 wedi'i gysylltu â'r cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu AA1. Dangosir y cysyniadau allweddol hyn isod gydag enghreifftiau o sut gellir defnyddio cynnwys yr opsiwn hwn i enghreifftio'r cysyniadau penodol hyn.

Edrychwch ar y fanyleb rydych yn ei hastudio ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 3. **Nodwch ddwy nodwedd arall o gynnwys y fanyleb a all enghreifftio pob cysyniad allweddol.**

Cofiwch y gellir defnyddio'r cynnwys penodedig i enghreifftio mwy nag un cysyniad os yw'n briodol.

| Cysyniadau allweddol | Enghreifftiau o gynnwys i enghreifftio'r cysyniadau hyn | |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | 1 | Y **prif resymau** dros y galwadau am ddiwygio Seneddol, 1780-1832 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Newid a pharhad | 1 | Y **newid** yn ffawd y pleidiau gwleidyddol, 1830-1880 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | 1 | **Cymhariaeth** o arweinyddiaeth yr arweinwyr gwleidyddol, 1830-1880 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | 1 | **Arwyddocâd** dyngarwch mewn diwygio cymdeithasol, 1812-1848 |
| | 2 | |
| | 3 | |

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 6: ADNABOD CYSYNIADAU HANESYDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Bydd pob un o'r cwestiynau a osodir ar gyfer Uned 1 yn disgwyl i chi gyflwyno dadl dros gysyniad hanesyddol. I wneud hyn yn effeithiol dylech ddod yn grefftus wrth adnabod y cysyniad a'r gwerthusiad y mae'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

A allwch chi nodi'r cysyniad allweddol o'r cwestiynau enghreifftiol isod? Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau a'i ddangos mewn **print trwm.**

- I ba raddau roedd diwygiadau Syr Robert Peel yn **datrys yn effeithiol** y problemau roedd e'n eu hwynebu fel gwleidydd yn y cyfnod 1822-1846?
- 'Syniadau'r iwtilitariaid oedd y dylanwad mwyaf arwyddocaol ar ddiwygio cymdeithasol yn y cyfnod 1830-1848.' Trafodwch.
- I ba raddau rydych chi'n cytuno mai'r Cynghrair er Diddymu'r Deddfau Ŷd oedd mudiad protest mwyaf effeithiol y bobl yn y cyfnod 1780-1850?
- Ai'r galw am ddiwygio seneddol oedd yn bennaf gyfrifol am brotestiadau'r bobl yn y cyfnod 1812-1880?
- Pa mor llwyddiannus oedd y llywodraethau wrth ddelio â'r galw am ddiwygio seneddol yn y cyfnod 1780-1848?
- I ba raddau gellir dweud mai gyrfa Benjamin Disraeli oedd y dylanwad pwysicaf ar ffawd y blaid Geidwadol yn ystod y cyfnod rhwng 1830 ac 1880?

Gallwch hefyd ddefnyddio cyfleuster Banc Cwestiynau CBAC i ymarfer adnabod y cysyniadau allweddol mewn amrywiaeth o hen gwestiynau eraill. Mae hwn ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/question-bank/index.html?language_id=2

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 7: GOSOD CWESTIYNAU CYSYNIADOL PRIODOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn deall natur ehangach Uned 1 mae'n bwysig bod athrawon a dysgwyr yn ymgyfarwyddo â sut mae cwestiynau cysyniadol yn cael eu ffurfio, sut gellir eu brawddegu a sut gellir eu haddasu yn ôl pa faes o'r astudiaeth o gyfnod a addysgir. Cynigir y cyngor canlynol:

- dylai'r cwestiwn fod yn **fater prif ffrwd** sydd wedi'i enwi neu ei gysylltu'n agos â'r manylion yn y fanyleb. Ceisiwch beidio â gosod cwestiynau ar rannau mân neu ddibwys o'r fanyleb.
- Rhaid bod yna **ddigon o sylwedd** i'r prif fater a osodir fel y bydd yn hybu dadl fywiog ar y topig a astudir. Peidiwch â gosod mater y mae'n hawdd i'r dysgwyr ei ddiystyru
- dylai'r cwestiwn a osodir ymdrin â **chyfnod sylweddol o amser**
- dylai fod modd i'r dysgwyr **gynnal dadl** drwy gydol yr ateb
- dylai'r cwestiwn ganiatáu i'r dysgwyr ddangos bod ganddynt **ddealltwriaeth o'r cysyniad hanesyddol perthnasol** yn y cwestiwn
- dylai'r cwestiwn gynnwys **gair neu eiriau allweddol** a fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ffurfio barn gytbwys e.e. *'Syr Robert Peel oedd y prif ddylanwad ar ddatblygiad y Blaid Geidwadol, 1830-1880.' Trafodwch.*

Ffordd awgrymedig o ymdrin â'r agwedd hon ar ddysgu yw defnyddio'r rhestr wirio ganlynol pan osodir tasgau a chwestiynau ar gyfer y dysgwyr.

| Ydy'r cwestiwn a osodwyd yn... | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| amlygu mater prif ffrwd? | | |
| hyrwyddo ymgysylltu â dadl? | | |
| ymdrin â chyfnod sylweddol o amser? | | |
| canolbwyntio ar gysyniad hanesyddol allweddol? | | |
| cynnwys gair gwerthusol? | | |

© Hawlfraint y Goron 2018

Ceisiwch osod eich cwestiynau cysyniadol eich hun ar gynnwys Astudiaeth o Gyfnod 3. A allwch chi osod cwestiynau cysyniadol priodol ar y meysydd cynnwys canlynol?

- Y rhesymau dros y diwygio seneddol, 1780-1832
- Effeithiolrwydd ymateb llywodraethau i bwysau gwleidyddol a chymdeithasol, 1812-1848
- Cymhariaeth o arwyddocâd protestiadau gwledig a threfol, 1812-1848
- Maint ac effaith y diwygiadau cymdeithasol ac economaidd, 1815-1848
- Pwysigrwydd arweinwyr gwleidyddol, 1830-1880

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, ceisiwch roi gradd CMG i'r nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â'ch cwestiynau.

## GWEITHGAREDD 8: GWERTHUSO GWAITH YN NULL TRAETHAWD

Dyma ddwy enghraifft o atebion i gwestiynau Uned 1 a osodwyd yn arholiadau 2017.

- Allwch chi gymhwyso'r rhestr wirio ar dudalen 11 y ddogfen Cyflwyno cysyniadau hanesyddol yn Uned 1 at y traethodau hyn?
- Ystyriwch gryfderau a chyfyngiadau pob traethawd.
- Ystyriwch sut gallech wella pob un a pha gyngor allech chi ei roi i'r dysgwr a'i hysgrifennodd.

© Hawlfraint y Goron 2018

## Enghraifft batrymol 1

**Ai'r galw am ddiwygio Seneddol oedd yn bennaf gyfrifol am brotestiadau'r bobl yn y cyfnod 1812-1880?**

Y galw am ddiwygio seneddol oedd y prif ffactor y tu ôl i brotestiadau'r bobl. Fodd bynnag, arweiniodd cyfuniad o ddiwygio economaidd a diwygio cymdeithasol at brotestiadau'r bobl hefyd.

Aeth y traddodiad radicalaidd a sefydlwyd gan Gymdeithas Ohebu Llundain a Chymdeithas Swydd Efrog Wyville yn yr 1780au a'r 1790au yn danddaearol yn ystod 'teyrnasiad braw' Pitt, cyn dod yn ôl i'r amlwg oherwydd amseroedd o anfodlonrwydd cymdeithasol neu economaidd. Dyma pryd y cafodd y traddodiad o ddiwygio'r Senedd ei esgor ar sail cyd-destun protestiadau'r bobl, oherwydd gwnaeth pob un o'r cymdeithasau hyn gyflwyno deiseb dros bleidlais gwŷr a seneddau blynyddol. Ymddangosodd y nodau hyn eto yn ystod gweinyddiaeth Liverpool ar ffurf cyfarfodydd a therfysgoedd Spa Fields, Cae St Peter, ac yn ddiweddarach, Siartiaeth. Roedd cyfarfodydd a therfysgoedd Spa Fields a arweiniwyd gan Cobden a Bright yn protestio dros seneddau blynyddol a phleidlais gwŷr. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthod oherwydd gweithredoedd y llywodraeth a hynny ar ffurf milwyr. Arweiniodd hyn at Arglwydd Liverpool yn dilyn polisi o ormes lle gwnaeth atal habeas corpus a chymeradwyo'r Ddeddf Cyfarfodydd Terfysglyd a oedd yn debyg i un Pitt. Roedd Cae St Peter yn gyfarfod yn yr awyr agored a drodd yn gyflafan oherwydd gorymateb awdurdodau lleol a gychwynnodd ddefnyddio trais ar y teuluoedd hynny oedd wedi ymgynnull yno i gefnogi seneddau blynyddol a phleidlais gyffredinol. Er gwaethaf y lladd a'r trais, datblygodd Cae St Peter i fod yn stori genedlaethol oherwydd y wasg a'u hadroddiadau ar 'Peterloo' a sicrhaodd y byddai'r diwygio seneddol yn achos cenedlaethol. Fodd bynnag, ar ôl Deddf Diwygio 1832 a ffyniant economaidd, ychydig o brotestiadau'r bobl a gafwyd ar y cyfan tan esgyniad Siartiaeth yn 1848, a oedd â siarter yn cynnwys chwe nod i'w cyflawni, a'r unig fodd o gyflawni pob pwynt oedd drwy ddulliau diwygio'r Senedd, megis cyflwyno pleidlais gudd a rhoi hawl i bobl dros 21 oed bleidleisio. Mae Siartiaeth yn cael ei hystyried yn brotest y bobl fwyaf effeithiol drwy'r cyfnod oherwydd ei bod yn fudiad cenedlaethol dosbarth gweithiol yn bennaf a oedd yn galluogi'r bobl i gael ymwybyddiaeth wleidyddol. Fodd bynnag, nid diwygio'r Senedd oedd yr unig reswm dros hynny er mai dyna oedd y prif reswm. Mewn gwrthgyferbyniad â Siartiaeth, roedd angen diwygio'r Senedd ar lefel ranbarthol, fel y gwnaeth Gwrthryfel Merthyr ddangos pan arweiniodd hynny at gael un AS a rhyddfreinio 500 o bobl yn y dref yng Nghymru. Gellir ystyried bod Gwrthryfel Merthyr wedi'i achosi hefyd gan gwymp economaidd a arweiniodd at ddiweithdra, ac felly'r angen am ddiwygio economaidd.

Datblygodd yr angen am ddiwygio economaidd i fod yn brotestiadau'r bobl drwy Ludiaeth a Chynllwyn y Plygiau. Roedd Prydain yn mynd yn fwy diwydiannol yn ystod y cyfnod hwn gan arwain at fecaneiddio a chynnydd mewn diweithdra oherwydd bod mecaneiddio yn cymryd lle'r dosbarth gweithiol. Sefydlwyd y mudiad Ludiaeth 1811-1812 mewn ymateb i'r cynnydd mewn diweithdra, pan oedd dynion yn dinistrio'r peiriannau oedd yn costio eu bywoliaeth iddynt. Gwnaeth yr un broblem gyda mecaneiddio arwain at derfysg y

Plygiau lle'r oedd terfysgwyr, er mwyn dial, yn tynnu plygiau oddi ar y peiriannau oedd yn atal dynion rhag gweithio. Mae hyn yn dangos bod angen diwygio economaidd er mwyn caniatáu mwy o swyddi ar gyfer pobl ddi-waith.

Gwnaeth newid yn yr hinsawdd economaidd arwain hefyd at ddiwygio gwleidyddol oherwydd y chwyldro masnachol a'r twf yn y boblogaeth yn 1866 gan arwain at ailddosbarthu seddi er gwaethaf diwydianeiddio trefi mwy o faint a mwy o bobl.
Gellir gweld yr angen am ddiwygio cymdeithasol yng Ngorymdaith y Blancedwyr yn 1817 lle'r oedd gweithwyr tecstilau yn protestio mewn grwpiau o ddeg, sef nifer y bobl a ganiatawyd o dan y gyfraith i gyflwyno deiseb i'r Senedd ynglŷn â'r diffyg agwedd dadol a ddangosodd y bonedd a oedd mewn grym yn y llywodraeth ar y pryd. Gellir gweld yr angen am ddiwygio cymdeithasol hefyd yn y mudiad 10 awr a oedd yn annog llai o oriau gwaith i blant ac oedolion. Fodd bynnag, mae'r achos hwn yn gyfyngedig oherwydd roedd diwygiadau cymdeithasol yn cael eu hosgoi os oeddent dan ddylanwad protestiadau'r bobl, a welwyd dan y Chwigiaid a Peel.

I gloi, diwygio'r Senedd yw prif achos protestiadau'r bobl oherwydd bod traddodiad radicalaidd wedi'i sefydlu a'i fod yn canolbwyntio ar ddiwygio'r Senedd a sicrhau bod protestiadau eraill yn parhau â'r traddodiad. Er mai dyma oedd y prif achos, nid dyma oedd yr unig achos gan fod achosion cymdeithasol ac economaidd wedi chwarae rhan. Er gwaethaf hyn, roedd yr achosion cymdeithasol yn llai pwysig oherwydd yr ymateb cyfyngedig i bwysau'r bobl.

# Enghraifft batrymol 2

**I ba raddau roedd diwygiadau Syr Robert Peel yn datrys yn effeithiol y problemau roedd e'n eu hwynebu fel gwleidydd yn y cyfnod 1822-1846?**

Gwnaeth Robert Peel wynebu llawer o broblemau gwahanol fel gwleidydd, yn amrywio rhwng problemau cymdeithasol a phroblemau gwleidyddol, megis yr hawl i bleidleisio, problemau yn Iwerddon, ac effeithiau'r dirwasgiad economaidd. I raddau helaeth, bu ei ymdrechion i ddiwygio yn effeithiol o ran mynd i'r afael â'r problemau hyn, ond yn aml, gwnaethant greu mwy o broblemau i Peel.

Roedd un broblem wleidyddol a wynebodd fel Ysgrifennydd Cartref yn yr 1820au yn gysylltiedig â rhyddfreinio'r Pabyddion. Ar ôl marwolaeth Arglwydd Liverpool, roedd y Prif Weinidog Wellington a'i Ysgrifennydd Cartref, Peel yn awyddus i gadw'r undod gydag Iwerddon. Gwnaeth pwysau gan y Chwigiaid, gyda chymorth protestiadau'r bobl, orfodi rhyddfreinio'r Pabyddion, ac er bod Peel yn erbyn y symudiad hwn, pleidleisiodd o'i blaid er mwyn cadw'r undod. Er bod y diwygiad hwn wedi'i wthio ar Peel, dangosodd ei fod yn barod i'w gefnogi er budd gwleidyddol, gan sicrhau ei fod yn ddatrysiad effeithiol.

Yn ogystal â hyn, ar ddiwedd yr 1820au, gwnaeth Plaid y Chwigiaid gynorthwyo cwymp y Blaid Dorïaidd a'u gorfodi i rannu dros bleidlais. Defnyddiodd y Chwigiaid brotestiadau'r bobl i ddangos i'r brenin fod rhaid i bethau newid. Ni allai Peel fradychu ei egwyddorion eto a phleidleisio dros y newid hwn. Ar ôl y rhwyg yn y Blaid Dorïaidd, gwnaeth Peel ailffurfio'r blaid fel y Blaid Geidwadol, gan ddweud y byddent yn cefnogi newid graddol a gofalus – rhywbeth a amlygwyd ym Maniffesto Tamworth 1834. Cyfeiriwyd yr addewid hwn at gynulleidfa ledled y wlad a bu'n effeithiol iawn o ran cyfannu'r rhwyg yn y blaid.

Roedd rhai o broblemau Peel yn cynnwys cysylltiad pendant ag economeg. Roedd Peel wedi bod yn gefnogwr polisïau Masnach Rydd ers 1818 gan ei fod yn credu'n gryf y byddent o fudd i'r economi ac i fywydau pobl. Un o elfennau hanfodol economi Prydain yn y cyfnod hwn oedd y Deddfau Ŷd oedd yn atal prisiau ŷd rhag amrywio gormod. Roedd Peel yn gwybod y byddai unrhyw ymgais i ddiwygio'r Deddfau Ŷd yn effeithio ar ei gefnogaeth yn y blaid Dorïaidd, a oedd yn cynnwys cymysgedd o Dorïaid eithafol a dilynwyr Peel. Cafodd y diwygiadau economaidd a wnaeth Peel yn yr 1830au eu gwneud yn raddol, gan ganolbwyntio ar ostwng tollau ar y deunyddiau yr oedd y dosbarth canol yn eu defnyddio er mwyn creu economi gryfach. Er bod y polisi economaidd hwn yn effeithiol o ran ennill mwy o gefnogaeth y dosbarth canol, roedd yr elît yn credu mewn polisi mwy diffyndollol er mwyn gwarchod amaethyddiaeth y wlad rhag cystadleuaeth o dramor. Gwelwyd eu gwrthwynebiad pan geisiodd Peel ddiddymu'r Deddfau Ŷd yn yr 1840au er mwyn creu mwy o gyfoeth i gynnal yr economi. Pasiwyd y diddymiad gyda chefnogaeth y Chwigiaid gan hollti'r Blaid Geidwadol unwaith eto. Er bod diwygio'r Deddfau Ŷd dan arweiniad Peel wedi datrys un broblem yn effeithiol, gwelwyd fod hynny hefyd wedi arwain at gyfres o broblemau newydd o fewn ei blaid ei hun.

© Hawlfraint y Goron 2018 

O ran problemau cymdeithasol, ni wnaeth Peel ymdrin â'r problemau hyn yn uniongyrchol, ac ni fu erioed yn effeithiol yn datrys hyn mewn gwirionedd. Er enghraifft, roedd un broblem yn ymwneud ag amodau gwaith a chyflogau, ac roedd y ddau yn faes yr oedd y Siartwyr yn protestio yn eu herbyn. Gwnaeth Peel ymateb drwy anwybyddu unrhyw brotestiadau a'u galw'n griw afreolus. Roedd yn wrthwynebydd cryf i unrhyw grwpiau radical, ac roedd yn credu mewn rheolaeth wleidyddol ac economaidd y dosbarth elît. Nid oedd ei dincran â diwygio cymdeithasol yn effeithiol o gwbl yn y tymor hir, ond yn ffodus i Peel, wrth i'r economi wella yn yr 1830au a dechrau'r 1840au, roedd y galw am ddiwygio cymdeithasol yn haws i'w anwybyddu. Nid oedd ei ddewis i wrthod mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol mawr yn effeithiol mewn gwirionedd, ond efallai mai felly yr oedd wedi ymddangos.

Yn gyffredinol, roedd y diwygiadau a wnaeth Peel yn y cyfnod rhwng 1822 ac 1846 yn effeithiol o safbwynt economaidd, ond ni wnaethant ddatrys unrhyw broblemau cymdeithasol na gwleidyddol yn y tymor hwy mewn gwirionedd. Gwnaeth y Blaid Geidwadol hollti ar ôl Diddymu'r Deddfau Ŷd, yn union fel y digwyddodd dan Wellington yn yr 1830au, a gwnaeth hyn atal unrhyw fesurau effeithiol rhag cael eu cymryd. Gwnaeth syniadau radical grwpiau fel y Siartwyr barhau i roi pwysau ar lywodraethau tan yr 1890au, gan ddylanwadu ar bolisïau Prif Weinidogion diweddarach, megis Disraeli a Gladstone. Mae hyn yn dangos mai dim ond rhannol effeithiol oedd polisïau Peel, gan drosglwyddo problemau yn hytrach na'u datrys yn uniongyrchol.

© Hawlfraint y Goron 2018